Wedi eich camgollfarnu?

- **Ydych chi wedi eich camgollfarnu?**
- **Oedd eich dedfryd yn anghywir?**
- **Ydych chi wedi ceisio apelio . . ond yn ofer?**

- Fe ALLWCH chi wneud rhywbeth amdano.
- Mynnwch air â'r Comisiwn Adolygu Achosion Troseddol.
- Rydym yn annibynnol ar yr heddlu a'r llysoedd. Ac efallai gallwn ni eich helpu.
- Os ydych chi yn y carchar, gofynnwch i'ch Swyddog Cymorth Cyfreithiol am bamffled. Neu ewch i ofyn am un o'r llyfrgell.

  Gallwch ein ffonio ar
  0121 633 1800

Beth yw'r Comisiwn Adolygu Achosion Troseddol?

Corff yw hwn sy'n ymchwilio i achosion lle mae'n bosib bod y gyfraith heb fod yn iawn.
Mae'r Comisiwn yn annibynnol ar yr heddlu a'r llysoedd.
Pan ewch chi â'ch achos atynt, fe gewch wrandawiad teg ganddynt.
Os byddant yn canfod eich bod wedi dioddef camwedd cyfiawnder fe allant gyfeirio eich achos i'r llysoedd apêl.

A allant fy helpu i?

Gall y Comisiwn edrych ar achosion sydd wedi eu rhoi ar brawf yng Nghymru, Lloegr neu Ogledd Iwerddon.
Fe allant edrych ar eich achos os ydych eisoes wedi ceisio apelio. Mae'n rhaid bod eich apêl naill ai wedi cael ei gwrthod neu ei cholli, cyn y gallant eich helpu.

A allaf gael cymorth cyfreithiol?

Gallwch, os nad oes gennych lawer o arian. Gall eich cyfreithiwr gael ffurflen i chi a'ch helpu i'w llenwi.
Gall cymorth cyfreithiol dalu am y gwaith cyfreithiol fydd ei angen ar gyfer eich achos.
I ddechrau fe gewch ddwy awr am ddim gyda chyfreithiwr.
Os bydd eich cyfreithiwr angen rhagor o amser i'ch helpu, gall cymorth cyfreithiol dalu am hynny hefyd.

Sut gallaf gysylltu â'r Comisiwn?

Mae sawl ffordd i gysylltu.

- Gofynnwch i'ch cyfreithiwr. Gall hwnnw neu honno gael y ffurflenni a'ch helpu.
- Gofynnwch i'ch Swyddog Cymorth Cyfreithiol neu yn llyfrgell y carchar am becyn gwybodaeth.
- Ffoniwch ni. Y rhif yw 0121 633 1800.
- Ysgrifennwch atom. Mae'r cyfeiriad ar gefn y daflen hon.

Beth fydd yn digwydd nesaf?

Mae'r Comisiwn yn delio â nifer fawr o achosion.
Efallai y cymer beth amser i ymchwilio i holl fanylion eich achos.
Gall dod i benderfyniad gymeryd mwy fyth o amser.
Ond yn ystod y broses bydd y Comisiwn yn rhoi gwybod i chi beth sy'n digwydd.

A yw'n gweithio?

Mae'r Comisiwn eisoes wedi helpu llawer o bobl.
Dyma i chi beth ddwedodd rhai ohonynt . . .

- Rwy'n falch o wybod bod pobl fel chi i'w cael
- O leiaf rwy'n gwybod eich bod chi wedi gwneud ymdrech
- Fe roesoch obaith i mi
- Does dim rhaid i bobl ddioddef anghyfiawnder
- Diolch am geisio fy helpu
- Rydych chi wedi fy nghymryd o ddifrif
- Rwyf am ddiolch am eich bodolaeth
- Diolch yn fawr!

Y Comisiwn Adolygu Achosion Troseddol
yw'r corff annibynnol sy'n gyfrifol am
ymchwilio i achosion o gamwedd cyfiawnder
a amheuir yng Nghymru, Lloegr a Gogledd
Iwerddon.

Y Comisiwn Adolygu Achosion Troseddol

Alpha Tower
Suffolk Street Queensway
Birmingham B1 1TT
Ffôn: 0121 633 1800
Ffacs: 0121 633 1823
E-bost: info@ccrc.gov.uk